Hospices Cymru
Hospisau Cymru
The Voice of Voluntary Hospices in Wales
Llais yr Hosbisau Gwirfoddol yng Nghymru

HospiceUK
Wales - Cymru

# Sicrhau dyfodol Hosbisau a Gofal Lliniarol

**Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru gymryd camau brys i sicrhau dyfodol hosbisau a gofal lliniarol:**

- **Sefydlu ateb cyllido cynaliadwy ar gyfer hosbisau Cymru**, fel bod mwy o bobl yn cael y gefnogaeth maent ei hangen yn nes at adref
- **Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn gofal lliniarol a gofal diwedd oes ledled Cymru**, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac i'r rhai sy'n wynebu caledi ariannol
- **• Sbarduno arloesedd a gwella ansawdd gofal** drwy gydweithio â hosbisau, gwella rheoleiddio, a meithrin gweithlu cadarn

**Rydyn ni'n credu bod pob plentyn ac oedolyn yng Nghymru sy'n cael ei effeithio gan farw, marwolaeth, a phrofedigaeth yn haeddu'r gofal gorau posibl. Ond mae'r galw cynyddol a chostau cynyddol yn peryglu'r gofal hwn.**

Mae'r her sydd o'n blaenau yn un enbyd. Mae'r galw am ofal lliniarol a gofal diwedd oes yng Nghymru yn cynyddu ar adeg pan fo bron i 1 o bob 3 hosbis yng Nghymru yn cael eu gorfodi i dorri gwasanaethau hanfodol.

Mae hosbisau yn un o gonglfeini system gofal iechyd Cymru. Maen nhw'n cefnogi dros 20,000 o blant ac oedolion y mae salwch terfynol yn effeithio arnyn nhw bob blwyddyn, gan leddfu'r pwysau ar y GIG, a darparu cymorth hanfodol a thosturiol yn y gymuned.

Ond maen nhw'n wynebu heriau mawr. Rhagwelir y bydd anghenion gofal lliniarol yn cynyddu 25% dros y 25 mlynedd nesaf.

Ar yr un pryd, mae hosbisau Cymru yn ei chael hi'n anodd talu costau cynyddol cyflogi eu staff arbenigol o un flwyddyn i'r llall, a'r pwysau cynyddol ar gostau byw.

Mae bron pob hosbis yng Nghymru yn rhagweld diffyg yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

Nid yw hyn yn gynaliadwy.

Mae angen gweithredu ar frys i barhau i ddarparu'r gofal gorau, nawr ac yn y dyfodol.

# Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru weithredu i sicrhau bod pawb yn cael y gofal lliniarol maent ei angen

1. **Sefydlu ateb cyllido cynaliadwy ar gyfer hosbisau Cymru,** fel bod mwy o bobl yn cael y gefnogaeth maent ei hangen yn nes at adref

- **Ariannu'n llawn y gofal arbenigol hanfodol a ddarperir gan hosbisau:** Rhoi'r gorau i ddibynnu ar gyllid elusennol ar gyfer gofal critigol, a gwneud gwasanaethau hosbis hanfodol yn rhan warantedig o ddarpariaeth gofal iechyd.
- **Sicrhau bod cyflogau staff hosbisau yn gyfartal â chyflogau cydweithwyr yn y GIG:** Sefydlu mecanwaith cenedlaethol i sicrhau bod hosbisau'n gallu recriwtio a chadw staff medrus drwy ddal i fyny â dyfarniadau cyflog y GIG.
- **Defnyddio trefniadau contractio cyson ar gyfer hosbisau:** Cyfnewid cytundebau tymor byr am gontractau pum mlynedd. Cynnwys adolygiadau ddwywaith y flwyddyn, cyflog gwarantedig, a chynnydd sy'n gysylltiedig â chwyddiant i gysoni gwasanaethau hosbis â safonau'r GIG a chryfhau sefydlogrwydd y gweithlu.

2. **Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn gofal lliniarol a gofal diwedd oes ledled Cymru**, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac i'r rhai sy'n wynebu caledi ariannol

- **Gwella prosesau casglu data i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau:** Nid yw cynifer ag 1 o bob 4 o bobl, a allai elwa o ofal lliniarol a gofal diwedd oes, yn cael cymorth priodol. Mae angen gwell data i ddeall eu hanghenion a darparu gwasanaethau priodol sydd wedi'u targedu'n well.
- **Creu Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal Lliniarol a Diwedd Oes:** Dan arweiniad gwell data, dylunio, a chomisiynu gwasanaethau sy'n mynd ati'n rhagweithiol i gyrraedd unigolion a chymunedau sydd leiaf tebygol o gael mynediad at ofal a chymorth presennol.
- **Gwella cymorth ariannol i bobl sydd â salwch terfynol:** Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys pobl sy'n byw gyda salwch terfynol yng Nghynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, sicrhau eu bod nhw a'u gofalwyr yn cael safon sylfaenol o gyngor ar les a nawdd cymdeithasol, a darparu cymorth teithio a llety cyson i gael gafael ar ofal.

3. **Sbarduno arloesedd a gwella ansawdd gofal** drwy gydweithio â hosbisau, gwella rheoleiddio, a meithrin gweithlu cadarn

- **Cryfhau gweithio mewn partneriaeth i ddiwallu anghenion lleol:** Cefnogi'r gwaith o ddatblygu model partneriaeth cenedlaethol ar gyfer hosbisau a Byrddau Iechyd, sy'n seiliedig ar wneud penderfyniadau cyfartal ac atebolrwydd ar y cyd gyda'r nod o sbarduno arloesedd a gwella mynediad at wasanaethau.
- **Symleiddio'r drefn reoleiddio ar gyfer gofal hosbis yng Nghymru:** Mynd i'r afael ag aneffeithlonrwydd a dyblygu yn nhrefniadau rheoleiddio Arolygiaeth Arolygiaeth Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru drwy archwilio dulliau rheoleiddio wedi'u teilwra mewn partneriaeth â'r sector hosbisau.
- **Adeiladu gweithlu gofal lliniarol gwydn:** Datblygu cynllun gweithlu gofal lliniarol a diwedd oes fel bod y staff iawn, yn y lle iawn, gyda'r sgiliau iawn i ateb y galw cynyddol.

# Hospice and palliative care in numbers

**£610m**

Yn cael ei wario bob blwyddyn ar ofal iechyd i bobl yng Nghymru yn ystod blwyddyn olaf eu bywyd

**£515m**

ohono'n cael ei wario ar ofal ysbyty[1]

**Dros 35,000**

O bobl yn marw yng Nghymru bob blwyddyn[2]

**Gallai hyd at 90%**

elwa o ofal lliniarol[3]

**77,000**

O ymweliadau gan staff gofal hosbis â phobl yn eu cartrefi eu hunain yn 2024-25[4]

**£30m**

O arian hosbisau elusennol yn cael ei fuddsoddi yn y system iechyd a gofal bob blwyddyn[5]

**1 o bob 5**

Gwely ysbyty yng Nghymru yn cael ei ddefnyddio gan bobl yn ystod 12 mis olaf eu bywyd[6]

**7 o bob 10**

Diwrnod gwely gofal dwys pediatrig yng Nghymruyn cael eu defnyddio gan blentyn sydd â chyflwr hirdymor[7]

**20,000**

O blant ac oedolion yn cael eu cefnogi gan hosbisau bob blwyddyn[8]

**800**

O staff clinigol a gofal yn cael eu cyflogi gan sefydliadau gofal hosbis[9]

**Traean**

O gyllid hosbisau yn dod gan y llywodraeth[10]

1. Ymddiriedolaeth Nuffield, Uned Economeg Iechyd, Marie Curie. Gwariant cyhoeddus yn ystod blwyddyn olaf eu bywyd. Llundain: Ymddiriedolaeth Nuffield; 2025
2. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 35,404 o farwolaethau wedi eu cofrestru yng Nghymru yn 2024
3. Marie Curie. Faint o bobl sydd angen gofal lliniarol? Amcangyfrifon wedi'u diweddaru o anghenion gofal lliniarol ledled y DU, 2017-2021. Data a phapur briffio tystiolaeth. Marie Curie; 2023
4. Data o arolwg data a gweithgarwch Hospice UK, 2024-25
5. Hospice UK, Data o Adroddiad Cyfrifon Hosbisau 2023-24
6. Marie Curie, Dyddiau yn yr ysbyty i bobl yn ystod blwyddyn olaf eu bywyd: cais am ddata gan y Dangosfwrdd Blwyddyn Olaf eu Bywyd; Cyfanswm capasiti gwelyau GIG Cymru yn 2023: Stats Cymru; "Gwelyau'r GIG yn ôl sefydliad a blwyddyn 2009-10 ymlaen"
7. Prifysgol Caerefrog 2023: Plant yng Nghymru sydd angen Gofal Lliniarol: Tueddiadau o ran nifer yr achosion a chymhlethdod 2009-2029
8. Data o arolwg data a gweithgarwch Hospice UK, 2024-25 ac Arolwg Aelodau Hospices Cymru, Medi 2024
9. Data o Arolwg Gweithlu Clinigol Hospice UK, 2024-25
10. Hospice UK, Data o Adroddiad Cyfrifon Hosbisau 2023-24

Hospices Cymru
Hospisau Cymru
The Voice of Voluntary Hospices in Wales
Llais yr Hosbisau Gwirfoddol yng Nghymru

HospiceUK
Wales - Cymru

## Gwybodaeth am Hospice UK

Mae gofal mewn hosbis yn lleddfu'r boen gorfforol ac emosiynol sy'n gysylltiedig â marwolaeth a marw. Mae'n gadael i bobl ganolbwyntio ar fyw hyd at y diwedd. Ond mae gormod o bobl o lawer yn methu cael y gofal hanfodol hwn. Mae Hospice UK yn brwydro dros ofal hosbis i bawb sydd ei angen, nawr ac am byth. Mae Hospice UK yn cynrychioli cymuned o fwy na 200 o hosbisau ledled y DU.

## Gwybodaeth am Hosbisau Cymru

Mae Hosbisau Cymru yn cynrychioli'r pymtheg hosbis elusennol yng Nghymru sy'n darparu gofal hanfodol i dros 20,000 o bobl y mae salwch terfynol yn effeithio arnynt bob blwyddyn. Mae ein haelodau'n gweithio i sicrhau bod pawb yn cael mynediad cyfartal at ofal hosbis a lliniarol holistaidd o ansawdd uchel, sy'n cael ei ddarparu yn y lle o'u dewis, ac sy'n cefnogi ac yn gofalu am eu teulu a'u hanwyliaid.


**Cysylltwch â: Matthew Brindley**

**Rheolwr Polisi ac Eiriolaeth yng Nghymru ar ran Hospice UK**

m.brindley@hospiceuk.org






**www.hospiceuk.org**

t: 020 7520 8200 @hospiceuk /hospiceuk

Hospice UK, Hospice House, 34 – 44 Britannia Street, London WC1X 9JG



© Hospice UK 2025. Company limited by guarantee. Registered in England and Wales No. 2751549.
Charity registered in England and Wales No. 1014851 and in Scotland No. SC041112. VAT No 731 304476.